WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol 2015-16

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Cyhoeddwyd: Awst 2016
Cyfeirnod y ddogfen: 449A2016



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Non Jenkins, Lisa Williams a Dave Wilson o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

# Cynnwys


## Adroddiad cryno

Yr adroddiad hwn 4

Gwaith archwilio perfformiad 2015-16 5

Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig i'r gwaith hwnnw, cred yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor yn debygol o fodloni gofynion y Mesur yn ystod 2016-17 ar yr amod ei fod yn parhau i gyflawni gwelliannau ar y raddfa bresennol 6

Argymhellion 7

## Adroddiad manwl

Perfformiad 10

Y defnydd o adnoddau 14

Llywodraethu 17

## Atodiadau

Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn 20

Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent 2015-16 21

Atodiad 3 – Archwiliad o asesiad o berfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent 2014-15 23

Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol 25

Atodiad 5 – Argymhellion adroddiad cenedlaethol a gyhoeddwyd yn 2015-16 28

# Adroddiad cryno

## Yr adroddiad hwn

1 Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn crynhoi'r gwaith archwilio a wnaed gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (y Cyngor) ers cyhoeddi'r adroddiad diwethaf o'r fath ym mis Awst 2015. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys crynodeb o ganfyddiadau allweddol o adroddiadau a gyhoeddwyd gan 'reoleiddwyr perthnasol', sef: Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC); Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn); a Chomisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd). Serch hynny, nid yw'r adroddiad hwn yn adolygiad cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau a geir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd o fewn y Cyngor gan gyrff adolygu allanol perthnasol ac, oni nodir fel arall, yn adlewyrchu'r sefyllfa ar yr adeg pan gafodd gwaith o'r fath ei gwblhau.

2 Gan ystyried y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2015-16, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi, yn yr adroddiad hwn, a yw o'r farn y bydd y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2016-17.

3 Ni ddylid ystyried bod y datganiad hwn yn rhoi barn bendant am sefyllfa sefydliad nac yn rhagfynegi ei lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn rhoi barn am y graddau y mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn i'r graddau y gellir nodi hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd.

4 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn post@archwilio.cymru neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

## Gwaith archwilio perfformiad 2015-16

5 Nodir y gwaith a gyflawnwyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan gynnwys gwaith y 'rheoleiddwyr perthnasol', isod.

| Enw'r prosiect | Disgrifiad byr |
|---|---|
| Swyddfa Archwilio Cymru: Archwiliad Blynyddol o'r 'Cynllun Gwella' | Adolygiad o gynlluniau cyhoeddedig y Cyngor ar gyfer cyflawni amcanion gwella yn unol â gofynion y Mesur. |
| Swyddfa Archwilio Cymru: Archwiliad Blynyddol o'r 'Asesiad o Berfformiad' | Adolygiad o asesiad o berfformiad cyhoeddedig y Cyngor yn unol â gofynion y Mesur. |
| Swyddfa Archwilio Cymru: Adolygiad o Ansawdd Data | Adolygiad o sampl o wyth o ddangosyddion perfformiad y Cyngor a'r trefniadau ategol ar gyfer casglu, cofnodi ac adrodd ar ddata. |
| Estyn: Gwerthusiad o berfformiad ysgolion | Adolygiad o berfformiad amrywiaeth o ysgolion o fewn y Cyngor. |
| Estyn: Ymweliad Monitro | Ymweliad monitro i asesu cynnydd y Cyngor yn erbyn y saith argymhelliad a wnaed yn dilyn ei arolygiad ym mis Ionawr 2013. |
| AGGCC: Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad | Gwerthusiad o berfformiad y Cyngor wrth gyflawni ei swyddogaethau ym maes gwasanaethau cymdeithasol. |
| Comisiynydd y Gymraeg: Adolygiad o Gynllun Iaith Gymraeg y Cyngor | Asesiad o effeithiolrwydd y cynllun wrth ddarparu gwasanaethau'r Cyngor i'r cyhoedd yn Gymraeg |
| Swyddfa Archwilio Cymru: Asesiad Cydnerthedd Ariannol | Adolygiad o sefyllfa ariannol y Cyngor a sut mae'n cyllidebu ac yn cyflawni arbedion gofynnol. |
| Swyddfa Archwilio Cymru: Gwaith dilynol ar Reoli Gwybodaeth | Adolygiad dilynol o drefniadau Rheoli Gwybodaeth y Cyngor. |
| Swyddfa Archwilio Cymru: Adolygiad o Adnoddau Dynol 2012 - Gwaith dilynol ar gynnydd | Adolygiad dilynol o drefniadau Adnoddau Dynol y Cyngor. |
| Swyddfa Archwilio Cymru: Adolygiad llywodraethu gyda ffocws ar Graffu | Adolygiad o gynnydd y Cyngor wrth fynd i'r afael ag Argymhelliad Statudol yr Archwilydd Cyffredinol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2013 a gweithrediad y Cyngor o'i Gynllun Gweithredu ar gyfer Trefniadau Craffu. |

| Project name | Brief description |
|---|---|
| Swyddfa Archwilio Cymru: Rhaglen Eiddilwch Gwent | Adolygiad o Raglen Eiddilwch Gwent i asesu a yw'r Rhaglen wedi sicrhau gwelliannau yn unol â disgwyliadau sefydliadau unigol. |
| Swyddfa Archwilio Cymru: Adroddiadau cenedlaethol | • Cydnerthedd ariannol cynghorau yng Nghymru (cyhoeddwyd 2 Ebrill 2015);<br>• Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar (cyhoeddwyd 3 Mehefin 2015);<br>• Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru (cyhoeddwyd 21 Gorffennaf 2015);<br>• Helpu Pobl Hŷn i Fyw'n Annibynnol: A yw Cynghorau'n Gwneud Digon? (cyhoeddwyd 15 Hydref 2015);<br>• Cyflawni â llai - Gwasanaethau Hamdden (cyhoeddwyd 3 Rhagfyr 2015) |

## Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig i'r gwaith hwnnw, cred yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor yn debygol o fodloni gofynion y Mesur yn ystod 2016-17 ar yr amod ei fod yn parhau i gyflawni gwelliannau ar y raddfa bresennol

6 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

a Nid yw'r trefniadau ar gyfer casglu data ac adrodd ar berfformiad yn ddigon cadarn.

b Daeth Estyn i'r casgliad nad oedd y Cyngor wedi gwneud cynnydd digonol o ran yr argymhellion yn dilyn yr arolygiad ym mis Ionawr 2013. O ganlyniad, roedd Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru o'r farn nad oedd angen i'r awdurdod fod yn destun mesurau arbennig mwyach ac ni chynhelir unrhyw weithgaredd dilynol pellach mewn perthynas â'r awdurdod hwnnw.

c Dywedodd AGGCC fod y Cyngor yn parhau i wneud cynnydd o ran datblygu ei adran gwasanaethau cymdeithasol yn 2014-15 a'i fod wedi adeiladu ar sylfeini'r flwyddyn flaenorol.

- ch Parhaodd trefniadau cydnerthedd ariannol y Cyngor i wella yn wyneb rhai heriau ariannol sylweddol, ond gallai ei drefniadau cynllunio ariannol gael eu gwella ymhellach mewn rhai meysydd allweddol.
- d Sefydlodd y Cyngor drefniadau a pholisïau i gefnogi'r gwaith o wella dulliau rheoli gwybodaeth ond gan fod cynnydd wedi bod yn araf tan yn ddiweddar, nid oeddent yn gwbl effeithiol eto.
- dd Gwnaeth y Cyngor gryn gynnydd yn erbyn yr argymhellion a ddeilliodd o'n hadolygiad o Adnoddau Dynol yn 2012, er bod cyfleoedd i wella ymhellach mewn rhai meysydd allweddol. Roedd arweinyddiaeth gadarn a gweledigaeth ym maes Adnoddau Dynol yn llywio gwelliant yn nhrefniadau a systemau'r Cyngor, ac o'u rhoi ar waith yn effeithiol, roeddent yn debygol o helpu'r Cyngor i drawsnewid y gwasanaeth ar raddfa ehangach.
- e Roedd y Cyngor wedi cymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael ag argymhelliad statudol yr Archwilydd Cyffredinol a nodir yn ei Lythyr Asesiad Gwella dyddiedig Hydref 2013 yn ymwneud â chraffu ac mae'n rhoi ei Gynllun Gweithredu ar gyfer Trefniadau Craffu ar waith, ond gellid gwneud mwy o waith o hyd i wneud y broses graffu yn fwy effeithiol a chyson yn ymarferol.
- f Roedd Rhaglen Eiddilwch Gwent wedi arddangos gwaith partneriaeth traws-sector rhanbarthol cadarnhaol i fynd i'r afael ag anghenion cynyddol yn y gymuned, ond nid oedd wedi dangos tystiolaeth o ganlyniadau gwell gweladwy, a fyddai'n bwysig wrth i bartneriaid benderfynu ar ddyfodol y rhaglen.

## Argymhellion

7 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- a wneud cynigion ar gyfer gwella - os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;
- b gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- c cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- ch argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

8 Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol. Fodd bynnag, ceir materion â llai o flaenoriaeth, a elwir yn gynigion ar gyfer gwella, yn ein hadroddiadau eraill ond gellir cyfeirio atynt yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn parhau i fonitro cynigion ar gyfer gwella yn ystod ein gwaith asesu gwelliant. Fodd bynnag, mae'n gwneud argymhellion a all fod yn berthnasol i'r Cyngor yn ei Adroddiadau Cenedlaethol ar Lywodraeth Leol. Ceir rhestr o argymhellion mewn adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2015-16 yn Atodiad 5.

9 Nodir Meysydd i'w Gwella a wnaed gan AGGCC yn ystod y flwyddyn isod.

| Adolygiad blynyddol a gwerthuso perfformiad AGGCC |
| --- |
| Meysydd i'w gwella 1<br>• Dylai'r Cyngor ystyried gweithio gyda phartneriaid iechyd i sefydlu llwybr ar gyfer datblygu dull integreiddio yn y dyfodol.<br>• Parhau i fonitro ansawdd a chanlyniadau o fewn y tîm diogelu oedolion. |
| Meysydd i'w gwella 2<br>• Nid oedd y terfynau amser ar gyfer adolygiadau amddiffyn plant gystal â'r rhai ar gyfer awdurdodau tebyg nac ychwaith o ran y cyfartaledd cenedlaethol, a dylai'r cyngor ystyried ffactorau sy'n cyfrannu at hyn.<br>• Ymchwilio i gyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal a'u monitro. |
| Meysydd i'w gwella 3<br>• Dylai'r Cyngor fonitro llwyth gwaith i nodi pwysau o ran llwyth gwaith a bylchau mewn adnoddau. |

# Adroddiad manwl



# Perfformiad

## Archwiliad o Gynllun Gwella Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent 2015-16

10 Ar 7 Gorffennaf 2015, gwnaethom gyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur a'i fod wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae ein tystysgrif wedi'i chynnwys yn Atodiad 3.

## Tystysgrif cydymffurfio ar gyfer yr Archwiliad o asesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent o berfformiad 2014-15

11 Ar 25 Tachwedd 2015, gwnaethom gyhoeddi Tystysgrif Cydymffurfio ar gyfer yr Archwiliad o asesiad y Cyngor o berfformiad 2014-15. Mae'r dystysgrif yn cadarnhau bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8) a (9) o'r Mesur. Mae ein tystysgrif wedi'i chynnwys yn Atodiad 4.

## Nid yw'r trefniadau ar gyfer casglu data ac adrodd ar berfformiad yn ddigon cadarn

12 Ym mis Ionawr 2016, gwnaethom gynnal archwiliad o sampl o wyth o ddangosyddion perfformiad a'r trefniadau ategol ar gyfer casglu, cofnodi ac adrodd ar ddata. Y dangosyddion perfformiad a archwiliwyd oedd pum Dangosydd Strategol Cenedlaethol, un Mesur Atebolrwydd Cyhoeddus (y mae'n ofynnol i bob cyngor gyflwyno canlyniadau ar eu cyfer) a dau ddangosydd perfformiad lleol yn benodol i'r Cyngor. Gwnaethom gyflwyno'r canfyddiadau i'r Cyngor ym mis Mehefin 2016.

13 Yn gyffredinol, gwelwyd bod gan y pedwar dangosydd canlynol drefniadau a oedd yn addas at y diben a gynhyrchodd ddata perfformiad diwedd y flwyddyn cywir:

- a PLA/006b – Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran o'r holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn;
- b SCA/002a – Cyfradd y bobl hŷn (65 oed a throsodd) sy'n cael cymorth yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth, 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth;
- c PSR/002 – Nifer gyfartalog y diwrnodau calendr a gymerir i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl;
- ch Lleol - Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarperir y flwyddyn.

14 Gwelwyd gwendidau yn y trefniadau yn y tri DP canlynol a arweiniodd at adrodd ar berfformiad yn anghywir:

- a LCS/002 – Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth lle bydd yr ymwelydd yn ymgymryd â gweithgarwch corfforol.

b STS/005b – Canran y priffyrdd a arolygwyd a oedd o safon glendid uchel neu dderbyniol.

c Lleol - Nifer y prosiectau effeithlonrwydd ariannol sydd ar eu hôl hi.

15 Nid oeddem yn gallu adolygu STS/006 - Canran y digwyddiadau tipio anghyfreithlon a gofnodwyd a gafodd eu clirio o fewn 5 diwrnod gwaith gan na allai'r Cyngor ddarparu'r cofnodion gwreiddiol a ddefnyddiwyd i gyfrifo perfformiad 2014-15. Felly, nid oeddem yn gallu profi a oedd y DP wedi cael ei gofnodi a'i gyfrifo'n gywir nad ychwaith a adroddwyd arno yn gywir.

## Gwerthusiad Estyn o berfformiad ysgolion

16 Cynhaliodd Estyn adolygiad o berfformiad ysgolion o fewn y Cyngor ar gyfer 2015-16 a nododd y canlynol:

a Ym Mlaenau Gwent y ceir y gyfran uchaf o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Ystyriwyd hyn wrth werthuso'r perfformiad yn yr awdurdod.

b Pan gymharwyd perfformiad ysgolion ym Mlaenau Gwent â pherfformiad ysgolion tebyg yng Nghymru, yn seiliedig ar y gyfran a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, roedd perfformiad yn y dangosydd Cyfnod Sylfaen oddeutu'r cyfartaledd ac roedd perfformiad yn y dangosyddion pwnc craidd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd yng nghyfnodau allweddol 2 a 3.

c Yng nghyfnod allweddol 4, cyfran y disgyblion yn cyflawni trothwy lefel 2 gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg oedd yr isaf yng Nghymru. Serch hynny, rhagorodd yr awdurdod ar y meincnod ar gyfer perfformiad yn y dangosydd hwn a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd perfformiad yn y mesur hwn yn unol â'r meincnod yn 2014 ond roedd islaw hyn yn y tair blynedd flaenorol. Methodd perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio ehangach gyfartalog â bodloni meincnod Llywodraeth Cymru am y pum mlynedd ddiwethaf.

ch Mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, lle roedd pob un o'r prif ddangosyddion yn 2015 yn agos at gyfartaledd Cymru.

d Roedd cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn agosach at gyfartaleddau Cymru gan eu bod wedi gwella ar gyfraddau cyflymach na'r cyfartaledd cenedlaethol dros y pum mlynedd ddiwethaf.

dd Roedd y gyfradd gwaharddiadau o bum niwrnod neu lai o ysgolion wedi mwy na dyblu ers 2012 a bellach hon oedd y gyfradd uchaf ond un yng Nghymru, ar ôl bod yn is na chyfartaledd Cymru tan 2014.

Bernir bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad ym mis Ionawr 2013. O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru o'r farn nad oes angen i'r Cyngor fod yn destun mesurau arbennig mwyach ac ni chynhelir unrhyw weithgaredd dilynol pellach mewn perthynas ag ef

17 Ym mis Tachwedd 2015, cynhaliodd Estyn ymweliad monitro er mwyn asesu cynnydd y Cyngor yn erbyn y chwe argymhelliad a wnaed yn dilyn ei arolygiad ym mis Ionawr 2013. Ym mis Rhagfyr 2015, cyhoeddodd Estyn ganlyniad yr ymweliad monitro ar ei gwefan.

Dywedodd AGGCC fod y Cyngor yn parhau i wneud cynnydd o ran datblygu ei adran gwasanaethau cymdeithasol yn 2014-15 a'i fod wedi adeiladu ar sylfeini'r flwyddyn flaenorol.

18 Cyhoeddodd AGGCC ei Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad 2014/15 ym mis Hydref 2015 ac mae ar gael ar ei gwefan.

19 Adroddodd AGGCC fod gwasanaethau cymdeithasol y Cyngor wedi gweld cyfnod o sefydlogrwydd yn ystod 2014-15. Gwelodd y flwyddyn flaenorol newidiadau mawr ar lefel gorfforaethol ac ar lefel adrannol, a arweiniodd at ailstrwythuro o fewn y Cyngor a'r gwasanaethau cymdeithasol. Yn y gwerthusiad o berfformiad y llynedd, nodwyd bod gwasanaethau cymdeithasol wedi llwyddo i berfformio'n gyson er gwaethaf y newid yn yr agenda.

20 Parhaodd y Cyngor i wneud cynnydd wrth ddatblygu ei adran gwasanaethau cymdeithasol yn 2014-15. Adeiladodd hyn ar sylfeini'r flwyddyn flaenorol.

21 Ym maes gwasanaethau plant roedd hyn yn cynnwys parhau â'r gwasanaethau blaenorol a ailstrwythurwyd. Llwyddodd y Cyngor i roi perfformiad da fel y gwnaeth yn y flwyddyn flaenorol. Bu'r gwasanaethau cymdeithasol yn rhagweithiol wrth geisio gwella, a chafodd cynllun gweithredu ei ddatblygu a'i roi ar waith mewn perthynas â meysydd i'w gwella a nodwyd yn arolygiad AGGCC o blant sy'n derbyn gofal 2013-14.

22 Ailstrwythurwyd gwasanaethau oedolion yn ystod 2014-15 yn unol â gwasanaethau plant, i ddarparu dull lleol o roi cyngor a chymorth. Adlewyrchodd yr ailstrwythuro hyn yr agendâu atal ac integreiddio gan roi'r Cyngor mewn sefyllfa gref yn barod ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

23 Yn 2013-14, roedd meysydd ar gyfer gwelliant corfforaethol wedi eu nodi gan Swyddfa Archwilio Cymru, gan ei gwneud yn ofynnol i gymorth allanol a mewnbwn gael eu darparu i lywio gwelliant mewn trefniadau llywodraethu a sicrhau dull cadarn a chyson o gyllidebu a chynllunio o fewn y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi gweithio'n agos gyda'r tîm cymorth a rheoleiddwyr yn ystod y cyfnod hwn a gwnaed cynnydd sylweddol wrth gyflawni hyn.

24 Darparodd adroddiad blynyddol y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol ddarlun cynhwysfawr o statws cyfredol gwasanaethau cymdeithasol ym Mlaenau Gwent. Nododd hyn gynnydd o ran blaenoriaethau a chyflawniadau'r flwyddyn flaenorol a'r meysydd i'w datblygu yn y flwyddyn i ddod. Roedd hyn yn cynnwys datblygu trefniadau cydweithredol gyda darparwyr iechyd a'r trydydd sector, a cheisiwyd adnoddau amgen i gefnogi newid a datblygiad o fewn amgylchedd ariannol cyfyngedig.

25 Ystyriodd y cyfarwyddwr y trefniadau i ategu'r broses o ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg neu ieithoedd eraill yr oedd eu hangen ac amlinellodd y trefniadau hynny. Roedd hyn yn cynnwys dulliau o gefnogi'r gwaith o weithredu Mwy na Geiriau - y fframwaith strategol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg ym meysydd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.

## Gwerthusiad Comisiynydd y Gymraeg o berfformiad Blaenau Gwent

26 Crëwyd rôl Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Daeth pwerau newydd i orfodi safonau ar sefydliadau i rym drwy is-ddeddfwriaeth ar 31 Mawrth 2015. Bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg yn rhinwedd y pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

27 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob cyngor yng Nghymru i arolygu cynlluniau iaith a rhoi cyngor ar y broses o'u rhoi ar waith. Mae cyfrifoldeb ar gynghorau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob cyngor wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu rhagor o wybodaeth yn ôl yr angen.

28 Mae ymateb ffurfiol y Comisiynydd a llythyrau a anfonwyd i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn ar gael ar wefan y Comisiynydd.

# Y defnydd o adnoddau

## Archwiliad o gyfrifon y Cyngor

29 Ar 26 Tachwedd 2015, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol Lythyr Archwilio Blynyddol i'r Cyngor. Mae'r llythyr yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'i gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn archwilio ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu'r Cyngor, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol ar gael yn Atodiad 4 o'r adroddiad hwn.

30 Amlygodd y Llythyr Archwilio Blynyddol fod yr archwiliad ddim yn gallu dod i ben yn swyddogol ac ni all yr Archwilydd Cyffredinol darparu tystysgrif archwilio tan ei fod wedi gallu ymateb i ohebiaeth gan aelod o'r cyhoedd. Fe amlygwyd hefyd fod yr Archwilydd Cyffredinol yn hapus na fydd y materion a godwyd yn cael effaith materol perthnasol ar y gyfriflen. Mae'r mater yma yn awr wedi'i ddatrys ac mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi darparu ei dystysgrif yn cadarnhau fod archwiliad o gyfrifon y Cyngor wedi'i gwblhau ar 13 Gorffennaf 2016.

## Parhaodd trefniadau cydnerthedd ariannol y Cyngor i wella yn wyneb rhai heriau ariannol sylweddol, ond gallai ei drefniadau cynllunio ariannol gael eu gwella ymhellach mewn rhai meysydd allweddol

31 Rhwng mis Mai a mis Hydref 2015, gwnaethom adolygu cydnerthedd ariannol y Cyngor, yn dilyn materion a godwyd yn y gwaith ar y sefyllfa ariannol yn 2014-15. Canolbwyntiodd y gwaith ar y graddau y cyflawnwyd cynlluniau arbedion 2014-15 a chyfnod cynllunio ariannol 2015-16.

32 Daeth ein hadolygiad i'r casgliad bod trefniadau cydnerthedd ariannol y Cyngor yn parhau i wella yn wyneb rhai heriau ariannol sylweddol, ond gallai ei drefniadau cynllunio ariannol gael eu gwella ymhellach mewn rhai meysydd.

33 Wrth ddod i'n casgliad, gwnaethom nodi'r canfyddiadau canlynol:

- a roedd gan y Cyngor drefniadau ar waith i gefnogi proses gynllunio ariannol effeithiol ond roedd ganddo hanes cymysg o gyflawni'r arbedion bwriadedig a amlinellir yn ei gynigion cyllideb ac roedd rhai cynlluniau yn brin o fanylion allweddol;
- b roedd gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol digonol ar waith, ac roedd wedi cyflwyno rhai trefniadau newydd i fynd i'r afael â gwendidau blaenorol ond nid oedd y rhain wedi'u hymgorffori'n llawn eto; ac
- c roedd gan y Cyngor drefniadau llywodraethu ariannol effeithiol ar waith ar y cyfan, a oedd wedi gwella'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf.

34 Derbyniodd Pwyllgor Archwilio'r Cyngor yr asesiad cydnerthedd ariannol yng Ngorffennaf 2016.

## Sefydlodd y Cyngor drefniadau a pholisïau i gefnogi'r gwaith o wella dulliau rheoli gwybodaeth ond gan fod cynnydd wedi bod yn araf tan yn ddiweddar, nid oeddent yn gwbl effeithiol eto

35 Ym mis Tachwedd 2015, cynhaliwyd adolygiad o gynnydd y Cyngor wrth fynd i'r afael â gwendidau yn ei drefniadau rheoli gwybodaeth a nodwyd yn ein dau adolygiad cynharach yn 2012 a 2013. Daethom i'r casgliad bod y Cyngor yn sefydlu trefniadau a pholisïau i gefnogi'r gwaith o wella dulliau rheoli gwybodaeth ond gan fod cynnydd wedi bod yn araf tan yn ddiweddar, nid oeddent yn gwbl effeithiol. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- a roedd Strategaeth Llywodraethu Gwybodaeth wedi cael ei chymeradwyo yn ddiweddar ac roedd ar waith, ond nid oedd ei hanes cymeradwyo a fersiynau wedi ei ddogfennu ac nid oedd ganddi gysylltiadau clir â materion lleol;
- b yn ddiweddar, roedd y Cyngor wedi cynyddu capasiti i gefnogi'r gwaith parhaus o ddatblygu dogfennau polisi a chanllawiau a fyddai'n diffinio trefniadau llywodraethu, strwythurau a rolau a chyfrifoldebau;
- c er bod tystiolaeth fod Cynllun Gweithredu Llywodraethu Gwybodaeth yn dechrau sbarduno materion ynghylch gwybodaeth yn y Cyngor, nid oedd y cynllun yn amlwg yn gysylltiedig ag amcanion corfforaethol y Cyngor na'i Strategaeth Llywodraethu Gwybodaeth;
- ch roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) yn cael ei friffio'n llawn ar bob agwedd ar lywodraethu gwybodaeth;
- d datblygodd y Cyngor gofrestr ganolog o Brotocolau Rhannu Gwybodaeth ac roedd yn atgyfnerthu ei gydymffurfiaeth â safon Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI);
- dd yn ddiweddar, roedd y Cyngor wedi oedi ac adolygu'r broses o roi'r System Rheoli Cofnodion Electronig a Dogfennau (EDRMS) ar waith i asesu cynnydd a chyfeiriad. Fodd bynnag, roedd angen gwneud gwaith pellach i ddeall yn llawn y sefyllfa gyfredol a nodau'r system;
- e roedd trefniadau ar waith i ddiogelu gwybodaeth y Cyngor pe bai trychineb; fodd bynnag, nid oedd y rhain wedi'u dogfennu'n ffurfiol mewn cynllun adfer ar ôl trychineb TG na pholisi cynhwysfawr wrth gefn; ac
- f nid oedd gan y Cyngor bolisi rhyddid gwybodaeth cyfredol, cymeradwy; ac nid oedd wedi adolygu nac adnewyddu'r cynnwys o ran rhyddid gwybodaeth ar ei wefan.

36 Cafodd Pwyllgor Archwilio'r Cyngor gopi o'r adroddiad dilynol ar Reoli Gwybodaeth ar 22 Mawrth 2016.

## Gwnaeth y Cyngor gryn gynnydd yn erbyn yr argymhellion a ddeilliodd o'n hadolygiad o Adnoddau Dynol yn 2012, er bod cyfleoedd i wella ymhellach mewn rhai meysydd allweddol. Roedd arweinyddiaeth gadarn a gweledigaeth ym maes Adnoddau Dynol yn llywio gwelliant yn nhrefniadau a systemau'r Cyngor, ac o'u rhoi ar waith yn effeithiol, roeddent yn debygol o helpu'r Cyngor i drawsnewid y gwasanaeth ar raddfa ehangach

37 Ym mis Mehefin 2012, cynhaliwyd adolygiad o drefniadau'r Cyngor i reoli a defnyddio ei weithlu yn effeithiol. Daethom i'r casgliad bod gan y Cyngor sail adnoddau dynol gadarn ond nad oedd ganddo drefniadau na systemau ar waith i ddarparu gwasanaethau adnoddau dynol a oedd yn debygol o gefnogi gwelliant parhaus.

38 Ym mis Tachwedd 2015, cynhaliwyd adolygiad pellach o gynnydd y Cyngor wrth fynd i'r afael â chynigion ar gyfer gwella o Adolygiad Adnoddau Dynol Mehefin 2012. Wrth gynnal yr adolygiad hwn, ni wnaethom archwilio'r cytundeb Statws Sengl gan fod hwn bron wedi'i gwblhau. Yn lle hynny, gwnaethom gynnwys ffocws ar ddull mwy cyffredinol y Cyngor o ymdrin â chynllunio'r gweithlu yn ein hadolygiad.

39 Daethom i'r casgliad bod y Cyngor wedi gwneud cryn gynnydd yn erbyn yr argymhellion a ddeilliodd o'n hadolygiad o Adnoddau Dynol yn 2012, er bod cyfleoedd i wella ymhellach mewn rhai meysydd Roedd arweinyddiaeth gadarn a gweledigaeth ym maes Adnoddau Dynol yn llywio gwelliant yn nhrefniadau a systemau'r Cyngor, ac o'u rhoi ar waith yn effeithiol, roeddent yn debygol o helpu'r Cyngor i drawsnewid y gwasanaeth ar raddfa ehangach.

40 Nodwyd cynnydd fel a ganlyn:

- a roedd y Cyngor wedi nodi ei weledigaeth strategol o ran Adnoddau Dynol yn glir;
- b roedd y Cyngor wedi adolygu ei drefniadau a'i systemau Adnoddau Dynol, ac roedd perfformiad Adnoddau Dynol yn cael ei fesur a'i werthuso'n effeithiol;
- c roedd cynllunio'r gweithlu ar waith ac wedi'i ymgorffori mewn ymarferion cynllunio busnes ac ail-ddylunio gwasanaethau;
- ch roedd Technoleg Gwybodaeth yn rhoi cymorth gwell wrth ddarparu gwasanaethau AD, gyda'r potensial i gael rhagor o fuddiannau o'r system gyfredol; ac
- d nid oedd pob risg AD allweddol yn cael ei chofnodi a'i rheoli'n ddigonol; nid oedd y gyfradd absenoldeb oherwydd salwch uchel a pharhaus wedi'i hymgorffori yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol ac nid oedd y camau gweithredu a oedd yn cael eu cymryd i leihau absenoldeb oherwydd salwch yn effeithiol eto.

41 Derbyniodd Pwyllgor Archwilio'r Cyngor a'u Pwyllgor Archwiliad Trosolwg Corfforaethol adroddiad adnoddau dynol yng Ngorffennaf 2016.

# Llywodraethu

Roedd y Cyngor wedi cymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael ag argymhelliad statudol yr Archwilydd Cyffredinol a nodir yn ei Lythyr Asesiad Gwella dyddiedig Hydref 2013 yn ymwneud â chraffu ac mae'n rhoi ei Gynllun Gweithredu ar gyfer Trefniadau Craffu ar waith, ond gellid gwneud mwy o waith o hyd i wneud y broses graffu yn fwy effeithiol a chyson yn ymarferol

42 Yn Llythyr Asesiad Gwella'r Archwilydd Cyffredinol dyddiedig Hydref 2013, gwnaeth ddau argymhelliad statudol i wella o dan adran 19 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Yr argymhelliad cyntaf oedd mynd i'r afael â gwendidau ym maes cynllunio ariannol drwy wella ansawdd yr adroddiadau i aelodau ar gynigion ynghylch arbedion cyllidebol. Yr ail argymhelliad oedd atgyfnerthu'r broses o graffu ar wneud penderfyniadau.

43 Ym mis Mai 2014, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad ar astudiaeth wella **Craffu Da? Cwestiwn Da!** gan grynhoi'r gwaith yr oedd wedi'i wneud mewn perthynas â chraffu ym maes llywodraeth leol yn ystod 2012-13. Nododd yr astudiaeth hon wyth argymhelliad ar gyfer Cymru gyfan i wella'r broses graffu yn y 22 cyngor yng Nghymru. Ymgorfforodd y Cyngor yr argymhellion hyn ar gyfer Cymru gyfan yn ei Gynllun Gweithredu ar Drefniadau Craffu ynghyd â meysydd i'w gwella a gafwyd o'i werthusiad mewnol ei hun a gwaith arall a gyflawnwyd gan y Ganolfan Craffu Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru a ni ein hunain.

44 Ym mis Rhagfyr 2015, gwnaethom adolygu cynnydd y Cyngor mewn perthynas ag Argymhelliad Statudol yr Archwilydd Cyffredinol 2 (fel uchod) a phroses y Cyngor o roi ei Gynllun Gweithredu ar gyfer Trefniadau Craffu ar waith.

45 Daethom i'r casgliad bod y Cyngor wedi cymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael ag argymhelliad statudol yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Hydref 2013 a oedd yn ymwneud â chraffu a'i fod yn rhoi ei Gynllun Gweithredu ar gyfer Trefniadau Craffu ar waith, ond gellid gwneud mwy o waith o hyd i wneud y broses graffu yn fwy effeithiol a chyson yn ymarferol.

46 Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- a roedd aelodau gweithredol ac uwch swyddogion yn glir ynghylch sut y maent yn cyfrannu at swyddogaeth graffu'r Cyngor, er nad oedd gwahoddiadau aelodau gweithredol i fynychu cyfarfodydd craffu, yn ymarferol, yn cael eu cynnig yn gyson nac yn unol â Llawlyfr Cymorth y Pwyllgor Gweithredol;
- b roedd y Cyngor wedi rhoi cymorth a hyfforddiant i aelodau craffu ond roedd rhai anghysondebau o hyd yn ansawdd y cadeirio a'r holi mewn cyfarfodydd craffu;
- c roedd y Cyngor wedi gwella ei drefniadau ar gyfer datblygu ac adolygu blaenraglenni gwaith ar gyfer pob un o'i bwyllgorau craffu; fodd bynnag, roedd angen i aelodau fanteisio ar y cyfleoedd a gyflwynwyd yn fwy hyderus i arwain y gwaith o lunio'r rhaglen;
- ch cafodd adroddiadau perthnasol gan archwilwyr allanol a chyrff adolygu allanol eraill eu cynnwys yn rhaglenni gwaith craffu'r Cyngor a'u monitro yn ystod y flwyddyn;

d roedd y Cyngor wedi cymryd camau i werthuso a gwella ei swyddogaeth graffu, ond roedd hyn, hyd yma, wedi cael ei lywio gan broses yn hytrach na chanolbwyntio ar ganlyniadau; ac

dd nid oedd y Cyngor hyd yma wedi gwerthuso'r effaith yr oedd ei swyddogaeth graffu yn ei chael ar sicrhau gwell penderfyniadau a chanlyniadau i bobl leol nac effeithiolrwydd ei waith ymgysylltu â'r cyhoedd.

47 Derbyniodd Pwyllgor Archwilio'r Cyngor yr adroddiad llywodraethu yng Ngorffennaf 2016.

## Roedd Rhaglen Eiddilwch Gwent wedi arddangos gwaith partneriaeth traws-sector rhanbarthol cadarnhaol i fynd i'r afael ag anghenion cynyddol yn y gymuned, ond nid oedd wedi dangos tystiolaeth o ganlyniadau gwell gweladwy, a fyddai'n bwysig wrth i bartneriaid benderfynu ar ddyfodol y rhaglen

48 O fis Ebrill 2011, dechreuodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd) a Chynghorau Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen weithredu model gofal integredig uchelgeisiol a elwir yn Rhaglen Eiddilwch Gwent (y Rhaglen)[1]. Ariannwyd y Rhaglen gan fenthyciad Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru a chyfraniadau gan briod bartneriaid i greu cronfa gyfunol.

49 Mae gan y Rhaglen statws cyfreithiol o dan gytundeb partneriaeth Adran 33[2] rhwng y Bwrdd Iechyd a phum cyngor Gwent. Gwnaeth y cytundeb bara am dair blynedd gan ddechrau ym mis Ebrill 2011. Crëwyd Cyd-bwyllgor Eiddilwch Gwent fel corff gwneud penderfyniadau sy'n dal atebolrwydd ffurfiol o dan gytundeb Adran 33. Roedd Grŵp Cydgysylltu Gweithredol (OCG), amrywiaeth o is-grwpiau arbenigol a strwythurau gweithredu lleol hefyd yn cefnogi gwaith y Cyd-bwyllgor.

50 Ym mis Tachwedd 2012, gwnaethom adolygu'r Rhaglen a chael bod y partneriaid yn ymrwymedig iawn i weledigaeth Eiddilwch Gwent a'u bod wedi creu fframwaith rheoli rhaglen cadarn yn sail iddi. Cydnabuwyd bod y Rhaglen ar gam gweithredu cynnar a'i bod yn wynebu heriau i sicrhau bod y Rhaglen yn gynaliadwy, i newid arferion gwaith sefydledig a dangos ei heffaith.

51 Canolbwyntiodd ein hadolygiad diweddaraf ym mis Mai 2015 ar b'un a oedd Rhaglen Eiddilwch Gwent wedi sicrhau gwelliannau yn unol â disgwyliadau sefydliadau unigol.

52 Daethom i'r casgliad bod y Rhaglen wedi arddangos gwaith partneriaeth traws-sector rhanbarthol cadarnhaol i fynd i'r afael ag anghenion cynyddol yn y gymuned, ond nid oedd wedi dangos tystiolaeth o ganlyniadau gwell gweladwy, a fyddai'n bwysig wrth i bartneriaid benderfynu ar ddyfodol y rhaglen.

1 Oni nodir fel arall, mae'r 'Rhaglen' yn cwmpasu'r pwyllgorau a'r gweithgorau, aelodau a staff a'r model cyflawni a gwasanaeth cyffredinol.

2 Mae cytundeb Adran 33 yn darparu sail ffurfiol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth. Gall y partneriaid ddefnyddio cytundeb adran 33 fel ffordd o greu cyllid refeniw a chyfalaf cyfunol. Mae rheolau rheoli ariannol a chyfrifyddu ariannol y Cyngor yn gymwys. Felly, gall y gwasanaeth ar y cyd adennill TAW yn ogystal â defnyddio mathau eraill o hyblygrwydd ariannol sydd ar gael i gyrff llywodraeth leol.

53 Daethom i’r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

a Roedd Rhaglen Eiddilwch Gwent wedi dwyn ynghyd yn llwyddiannus bartneriaid a wnaeth roi o’u hamser ac adnoddau i wella canlyniadau i bobl oedrannus fregus, ond nid oedd y nodau ariannol wedi’u cyflawni, ac roedd yn anodd o hyd i bartneriaid ddangos tystiolaeth o ganlyniadau.

b Mae trefniadau llywodraethu yn ystod oes y rhaglen wedi bod yn ddigonol ar y cyfan ond gallai’r Rhaglen fod wedi ymgysylltu’n well â phartneriaid, wedi elwa ar wybodaeth gliriach ac wedi bod yn fwy agored ynglŷn â’i busnes. Nodwyd y canlynol gennym:

- bod y trefniadau llywodraethu yn darparu ar gyfer gwneud penderfyniadau’n brydlon ond nad oedd sefydliadau partner bob amser yn cael eu hysbysu’n ddigonol am faterion pwysig a oedd yn effeithio ar y Rhaglen, fel y tanwariant mawr sy’n dod i’r amlwg;
- roedd y trefniadau adrodd ariannol yn y Rhaglen yn ddigonol ond nid oedd adrodd ar berfformiad yn addas at y diben;
- dechreuodd y broses o dryloywder cyhoeddus a chofnodi penderfyniadau yn dda ond aeth yn wannach dros amser; ac
- nid oedd y broses o graffu’n gyson ar benderfyniadau gan Gyd-bwyllgor Eiddilwch Gwent yn gadarn, er bod y rhan fwyaf o bartneriaid yn adrodd bob blwyddyn drwy eu trefniadau craffu eu hunain.

c Gwnaeth Rhaglen Eiddilwch Gwent elwa ar ymrwymiad cryf ac roedd ar gam allweddol ar ei daith ond roedd angen gweledigaeth glir i lwyddo. Nodwyd y canlynol gennym:

- mae’r Rhaglen wedi elwa ar ymrwymiad cryf gan y sefydliadau partner, ac roedd angen i hyn gael ei ailgadarnhau yng nghyd-destun yr heriau ariannol a gweithredol sy’n wynebu’r sefydliadau unigol; ac
- roedd cyfeiriad y Rhaglen yn y dyfodol yn aneglur, roedd y bartneriaeth ar gam allweddol ac nid oedd y partneriaid wedi cytuno eto ar weledigaeth glir, y byddai angen canlyniadau a buddiannau mesuradwy arni.

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent 2015-16

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio Cynllun Gwella Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (y Cyngor) yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i:

a. wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;

b. gwneud trefniadau i sicrhau y caiff ei amcanion gwella eu cyflawni; ac

c. gwneud trefniadau i arfer ei swyddogaethau er mwyn sicrhau y cyrhaeddir unrhyw safon perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, neu ar ôl y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac am y wybodaeth a nodir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd y Cyngor mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, archwilio'r Cynllun Gwella, ardystio fy mod wedi gwneud hynny, a chadarnhau a wyf yn credu bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn unol â gofynion statudol a nodir yn adran 15 ac mewn canllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad o'r Cynllun Gwella

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth nac ar b'un a ellir cyflawni'r Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan y Cyngor. Efallai y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor yn cynnwys adolygu'r cynllun er mwyn nodi a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd y Cyngor wedi ystyried canllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Copi i: Leighton Andrews, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Non Jenkins, Rheolwr
Dave Wilson, Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad

# Atodiad 3 – Archwiliad o asesiad o berfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent 2014-15

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio asesiad Cyngor Blaenau Gwent (y Cyngor) o'i berfformiad yn 2014-15, ar ôl iddo gael ei gyhoeddi ar 27 Hydref 2015, yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8) a (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi asesiad bob blwyddyn sy'n disgrifio ei berfformiad o ran:

- cyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau;
- cyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u pennu iddo'i hun;
- drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a dangosyddion perfformiad hunanosodedig; ac
- chyrraedd unrhyw safonau perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a safonau perfformiad hunanosodedig.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol sy'n dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi, neu erbyn y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth gyhoeddi ei asesiad.

Fel archwilydd y Cyngor, mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, gynnal archwiliad er mwyn nodi a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad, ardystio fy mod wedi gwneud hynny, a chyflwyno adroddiad i nodi a wyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth. Efallai y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o asesiad y Cyngor o'i berfformiad yn cynnwys adolygu cyhoeddiad y Cyngor er mwyn nodi a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r asesiad yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd y Cyngor wedi ystyried canllawiau statudol wrth ei baratoi a'i gyhoeddi.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Copi i: Leighton Andrews, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Non Jenkins, Rheolwr
Dave Wilson, Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad

# Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol

Mr David Waggett
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Swyddfeydd Bwrdeistrefol
Y Ganolfan Ddinesig
Glynebwy
NP23 6XB

Annwyl David,

### Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent 2014-15

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; ac
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; ac
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 30 Medi 2015, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Hysbyswyd aelodau'r Pwyllgor Archwilio am y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 29 Medi 2015, a chyflwynir adroddiad manylach maes o law.

## Mae'r Cyngor yn parhau i ymateb yn gadarnhaol i'r argymhellion statudol a wnaed yn 2013 gan yr Archwilydd Penodedig ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Roedd fy Llythyr Archwilio Blynyddol ar gyfer 2013-14 a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2014 yn tynnu sylw at y ffaith bod y Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i'r Argymhelliad Statudol o dan Adran 25(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod y Cyngor wedi cymryd camau priodol i wella ei drefniadau rheoli ariannol ond ei bod yn rhy gynnar ar y cam hwnnw i gadarnhau a fyddai'r camau gweithredu a gymerwyd yn cyflawni cwantwm llawn yr arbedion yr oedd eu hangen.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2014-15, cyflawnodd y Cyngor arbedion o tua £9,925,000. Er gwaethaf y cyflawniad sylweddol hwn, mae Datganiad Cyfrifon y Cyngor ar gyfer 2014-15 yn dangos bod ei Gronfa Gyffredinol wrth Gefn wedi gostwng £574,000 i £5,246,000 a bod Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio (refeniw a chyfalaf) wedi gostwng £190,000 i £27,973,000. Roedd y gostyngiad yn y Gronfa Gyffredinol yn bennaf o ganlyniad i'r angen am addasiadau cyfrifyddu technegol a ddeilliodd o'n harchwiliad o ddatganiadau ariannol drafft y Cyngor. Roedd yr addasiadau yn ymwneud â dileu drwgddyledion, dileu dyledwyr rhwng cwmnïau a sefydlu darpariaethau i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â chau Monwel Limited.

Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn nodi bod y Cyngor yn parhau i wynebu heriau ariannol parhaus sylweddol ac mae'n rhagweld y bydd angen iddo arbed £29,270,000 arall rhwng 2015-15 a 2019-20. Mae cynlluniau manwl i nodi sut y cyflawnir cwantwm yr arbedion heb eu datblygu eto. O ganlyniad, byddaf yn parhau i fonitro effeithiolrwydd y trefniadau y mae'r Cyngor yn eu gweithredu i sicrhau ei gynaliadwyedd ariannol parhaus.

## Rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Cyhoeddwyd fy Adroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer 2014-15 ym mis Awst 2015 a daeth i'r casgliad fod gan y Cyngor y potensial i gydymffurfio â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol yn ystod 2014-15 ar yr amod y cynhelir y momentwm cyfredol. Fodd bynnag, roedd yn cynnwys pum mater â blaenoriaeth is y cyfeiriwyd atynt fel cynigion ar gyfer gwella a gafodd eu cynnwys mewn adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn. Byddaf yn monitro'r camau a roddwyd ar waith gan y Cyngor i ymateb i'r cynigion hyn yn ystod gwaith asesu gwelliannau 2015-16.

## Nid wyf eto wedi cyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau bod y broses o archwilio'r cyfrifon wedi'i chwblhau

Ni ellir dod â'r archwiliad i ben yn ffurfiol na chyhoeddi tystysgrif archwilio nes y gallaf ymateb i ohebiaeth gan aelod o'r cyhoedd yr wyf yn delio â hi ar hyn o bryd. Rwy'n fodlon na fydd y materion a godwyd yn cael effaith berthnasol ar y datganiad cyfrifon.

## Nid yw'r gwaith a wnaed gennyf hyd yma yn ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi nodi materion sylweddol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2015-16 na systemau ariannol allweddol

Nid yw fy ngwaith ardystio grantiau ar eich hawliau a'ch ffurflenni grant hyd yn hyn wedi nodi unrhyw faterion sylweddol a fyddai'n effeithio ar eich cyfrifon ar gyfer 2015-16 na'r systemau ariannol allweddol. Bydd adroddiad manylach ar fy ngwaith ardystio grantiau yn dilyn yn 2016 unwaith y bydd rhaglen waith ardystio eleni wedi'i chwblhau.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2014-15 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodir yn y Cynllun Archwilio a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2015.

Yn gywir

Derwyn Owen
Cyfarwyddwr Archwilio Ariannol
**Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**

# Atodiad 5 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol a gyhoeddwyd yn 2015-16

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Ebrill 2015 | Cydnerthedd ariannol cynghorau yng Nghymru | A1 Dylai cynghorau sicrhau bod eu cynllun corfforaethol:<br>• wrth wraidd y broses o lywio cynlluniau gwasanaeth a strategaethau ategol eraill gan gynnwys y gweithlu, technoleg gwybodaeth a gwariant cyfalaf;<br>• yn cynnal blaenolwg tair i bum mlynedd o leiaf a'i fod yn unol â'r cynllun ariannol tymor canolig a strategaethau ategol eraill; a<br>• dylai nodi'n glir rôl ddymunol y cyngor mewn pum mlynedd - y model ar gyfer darparu gwasanaethau â blaenoriaeth a'r seilwaith a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni blaenoriaethau yn y dyfodol o fewn y cyllid sydd ar gael.<br>A2 Dylai'r cynllun ariannol tymor canolig nodi'r prif risgiau ariannol a thybiaethau allweddol a dylai uwch swyddogion a chynghorwyr graffu arnynt a'u herio'n effeithiol cyn mabwysiadu'r cynllun.<br>A3 Mae angen i gynghorau sicrhau bod diffygion ariannol yn cael eu rhagamcanu'n gywir a'u cysoni'n llawn â chynlluniau arbed manwl ar gyfer pob blwyddyn o oes y cynllun ariannol tymor canolig.<br>A4 Dylai cynghorau adolygu digonolrwydd y trefniadau sicrwydd ariannol sy'n sail i gyflawni cynlluniau arbed blynyddol, gan gynnwys lefel y gwaith craffu a herio a gynigir gan gynghorwyr.<br>A5 Dylai cynghorau sicrhau bod ganddynt strategaeth cronfeydd wrth gefn gynhwysfawr sy'n amlinellu diben penodol cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy cronedig fel rhan o'u Cynllun Ariannol Tymor Canolig.<br>A6 Dylai cynghorau ddatblygu polisïau cwbl gorfforaethol ar gynhyrchu incwm gyda'r nod o gynyddu ffrydiau refeniw a lleihau pwysau ariannol.<br>A7 Dylai cynghorau:<br>• atgyfnerthu trefniadau pennu a monitro cyllidebau er mwyn sicrhau cydnerthedd ariannol; ac<br>• adolygu cwmpas ac effeithiolrwydd eu systemau a'u rheolaethau ariannol mewnol ac allanol er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben ac yn rhoi rhybudd cynnar am wendidau mewn systemau allweddol.<br>A8 Rhaid i gynghorau adolygu eu timau cyllid a sicrhau bod ganddynt ddigon o adnoddau a gallu i fodloni gofynion yn y dyfodol.<br>A9 Mae angen i swyddogion cynghorau sicrhau bod gan gynghorwyr y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyflawni gwaith llywodraethu a herio effeithiol drwy ymestyn cyfleoedd hyfforddi a llunio gwybodaeth reoli o ansawdd uchel. |

<table>
<tr><th>Dyddiad yr adroddiad</th><th>Teitl yr adolygiad</th><th>Argymhelliad</th></tr>
<tr><td>Mehefin 2015</td><td>Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar</td><td>
A1 Egluro natur a gweithrediad consortia.<br>Nodwyd gennym fod ansicrwydd parhaus ynglŷn â rhai agweddau ar natur consortia rhanbarthol a'u cwmpas nawr ac yn y dyfodol (paragraffau 2.2 i 2.20). Felly, rydym yn argymell y canlynol:
<ul><li>Dylai awdurdodau lleol egluro a yw gwasanaethau consortia yn cael eu darparu ar y cyd neu a ydynt yn wasanaethau a gomisiynwyd (mae gwasanaethau a ddarperir o dan drefniadau cydbwyllgor yn wasanaethau a ddarperir ar y cyd ac nid ydynt yn wasanaethau a gomisiynwyd.</li></ul>
A2 Canolbwyntio ar ganlyniadau drwy waith cynllunio tymor canolig.
Nodwyd gennym fod ffocws ar gamau gweithredu byrdymor ac ansicrwydd ynglŷn â dyfodol consortia yn rhwystro'r gwaith o ddatblygu consortia rhanbarthol effeithiol (paragraffau 2.33 i 2.36; 3.16 i 3.17). Felly, rydym yn argymell y canlynol:
<ul><li>Gan na chaiff unrhyw raglen bosibl i ad-drefnu awdurdodau lleol ei rhoi ar waith yn llawn tan 2020, dylai Llywodraeth Cymru a chonsortia rhanbarthol ddatblygu cynlluniau tair blynedd ar gyfer datblygu consortia rhanbarthol ymhellach, pennu eu cwmpas a'u cyllid, wedi'u cysylltu ag amcanion strategol priodol.</li></ul>
A3 Datblygu cydberthnasau mwy cydweithredol ar gyfer y system gwella ysgolion.
Cyfrannodd llawer o bartneriaid gwella ysgolion at y gwaith o ddatblygu'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol ond nodwyd gennym nad oedd hyn wedi arwain at ddatblygu cydberthnasau digon cydweithredol (paragraffau 2.25 i 2.32). Felly, rydym yn argymell y canlynol:
<ul><li>Dylai consortia rhanbarthol ddatblygu trefniadau gwell ar gyfer rhannu arfer a chefnogi effeithlonrwydd (er enghraifft, gallai un consortiwm arwain y gwaith o fynd i'r afael â mater neu gallai fod ganddo gyfrifoldeb gweithredol am ddatblygu polisi).</li>
<li>Dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol gydnabod cyd-ddibyniaeth yr holl bartneriaid wrth gyflawni eu rolau gwella ysgolion a chytuno ar ddull o wneud y canlynol:
<ul><li>rhannu gwybodaeth am ddatblygiadau sy'n ymwneud â gwella ysgolion ac ymgynghori yn eu cylch;</li>
<li>datblygu cydberthnasau cydweithredol sy'n seiliedig ar atebolrwydd a rennir; a</li>
<li>chynnal adolygiadau system gyfan a chysoni'r ddealltwriaeth o gonsortia rhanbarthol a sefyllfa consortia rhanbarthol ym mhob un o strategaethau perthnasol Llywodraeth Cymru.</li></ul></li></ul>
</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Dyddiad yr adroddiad</th><th>Teitl yr adolygiad</th><th>Argymhelliad</th></tr>
<tr><td>Mehefin 2015</td><td>Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar</td><td>A4 Datblygu arweinwyr effeithiol a denu’r dalent orau.<br>Mae consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru oll wedi’i chael hi’n anodd recriwtio uwch arweinwyr ar gyfer addysg a nodwyd gennym nad oes fawr ddim wedi’i wneud i fynd i’r afael â hyn (paragraffau 2.37 i 2.40). Felly, rydym yn argymell y canlynol:<br>• dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gydweithredu i wneud rolau arwain ym maes addysg yn fwy deniadol er mwyn denu’r arweinwyr mwyaf talentog ar gyfer y system gwella ysgolion; a<br>• dylai awdurdodau lleol gydweithredu er mwyn cefnogi datblygiad proffesiynol uwch arweinwyr a sicrhau bod trefniadau rheoli perfformiad priodol ar waith ar gyfer uwch arweinwyr.<br>A5 Gwella effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheoli consortia rhanbarthol.<br>Er bod cynnydd yn parhau i gael ei wneud, nodwyd nad yw consortia rhanbarthol wedi datblygu trefniadau llywodraethu a rheoli ariannol cwbl effeithiol eto (paragraffau 3.2 i 3.36). Felly, rydym yn argymell y dylai awdurdodau lleol a’u consortia rhanbarthol wneud y canlynol:<br>• gwneud gwell defnydd o hunanwerthusiadau o’u perfformiad a’u trefniadau llywodraethu i ategu gwaith cynllunio busnes a’u hadolygiadau blynyddol o drefniadau llywodraethu er mwyn llywio eu datganiadau llywodraethu blynyddol;<br>• gwella prosesau gwella perfformiad gan gynnwys gwella prosesau cynllunio busnes, defnyddio mesurau perfformiad clir a mesuradwy ac asesu gwerth am arian;<br>• sicrhau bod rheoli risg strategol yn rhan annatod o’u trefniadau rheoli a chyflwyno adroddiadau rheolaidd ar lefel y cydbwyllgor neu’r bwrdd;<br>• datblygu eu trefniadau rheoli ariannol er mwyn sicrhau bod gweithgarwch cyllidebu, monitro ariannol ac adrodd yn cwmpasu’r holl incwm a gwariant perthnasol, gan gynnwys arian grant a gaiff ei wario drwy awdurdodau lleol;<br>• datblygu trefniadau craffu ar y cyd y consortia yn gyffredinol yn ogystal â gwaith craffu perfformiad a wneir gan awdurdodau unigol, a all gynnwys sefydlu cydbwyllgor craffu neu waith cydgysylltiedig gan bwyllgorau craffu awdurdodau lleol;<br>• sicrhau bod prosesau gwneud penderfyniadau a threfniadau consortia yn agored ac yn dryloyw;<br>• adnabod unrhyw wrthdaro buddiannau posibl a mynd i’r afael ag ef; a phan fo gan staff fwy nag un cyflogwr, dylai consortia rhanbarthol sicrhau bod llinellau atebolrwydd yn glir a bod pob aelod o staff yn ymwybodol o’r rolau a gyflawnir; a<br>• datblygu strategaethau cyfathrebu cadarn ar gyfer ymgysylltu â phob rhanddeiliad allweddol.</td></tr>
</table>

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Gorffennaf 2015 | Adolygu Trefniadau Diogelu Corfforaethol mewn Cynghorau yng Nghymru | A1 Gwella arweinyddiaeth gorfforol a chydymffurfio â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddiogelu drwy wneud y canlynol:<br>• penodi uwch swyddog arweiniol sy'n atebol am ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc ac sydd â chyfrifoldebau corfforaethol am gynllunio gwelliannau;<br>• penodi aelod diogelu arweiniol; a<br>• lledaenu gwybodaeth am y penodiadau hyn i bob aelod o staff a rhanddeiliad a'i diweddaru yn rheolaidd.<br>A2 Sicrhau bod polisi cwbl gorfforaethol ar ddiogelu sy'n cwmpasu holl wasanaethau'r Cyngor er mwyn cynnig cyfeiriad strategol clir a llinellau atebolrwydd clir ym mhob rhan o'r Cyngor.<br>A3 Atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer recriwtio staff a gwirfoddolwyr mewn modd diogel drwy wneud y canlynol:<br>• sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a chydymffurfiaeth â pholisïau recriwtio'n ddiogel yn cwmpasu'r holl wasanaethau sy'n dod i gysylltiad â phlant;<br>• creu system cydymffurfiaeth gorfforaethol integredig i gofnodi a monitro lefelau cydymffurfiaeth o ran gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; a<br>• gofyn am arferion recriwtio'n ddiogel ymhlith partneriaid yn y trydydd sector ac ar gyfer gwirfoddolwyr sy'n darparu gwasanaethau a gomisiynir a/neu a ddefnyddir gan y Cyngor a ategir gan gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth.<br>A4 Sicrhau bod pob aelod perthnasol o staff a phob aelod a phartner perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau o ran diogelu drwy wneud y canlynol:<br>• sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn orfodol a bod ei gwmpas yn cael ei ymestyn i gynnwys holl feysydd gwasanaeth perthnasol y Cyngor a'i fod yn cael ei gynnwys fel rhywbeth safonol mewn rhaglenni sefydlu;<br>• llunio system gwbl gorfforaethol i nodi, olrhain a monitro cydymffurfiaeth o ran cael hyfforddiant diogelu yn holl adrannau'r Cyngor ac ymhlith aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr; a<br>• mynnu bod staff perthnasol, mewn sefydliadau partner sydd wedi'u comisiynu i weithio i'r Cyngor drwy ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc, yn cael hyfforddiant diogelu.<br>A5 Wrth ddiwygio'r canllawiau, dylai Llywodraeth Cymru egluro'r hyn y mae'n ei ddisgwyl gan awdurdodau lleol o ran rolau a chyfrifoldebau'r swyddog dynodedig o fewn gwasanaethau addysg a'r unigolyn a enwir ar lefel uwch reolwr sy'n gyfrifol am hyrwyddo diogelwch plant. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Gorffennaf 2015 | Adolygu Trefniadau Diogelu Corfforaethol mewn Cynghorau yng Nghymru | A6 Gwella atebolrwydd am weithgarwch diogelu corfforaethol drwy gyflwyno adroddiadau rheolaidd ar faterion diogelu a sicrwydd i'r pwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth am berfformiad ym mhob rhan o'r Cyngor sy'n cynnwys y canlynol:<br>• meincnodi a chymariaethau ag eraill;<br>• casgliadau adolygiadau archwilio/arolygu mewnol ac allanol;<br>• data perfformiad sy'n seiliedig ar wasanaethau;<br>• data personél allweddol megis hyfforddiant diogelu a gwiriadau recriwtio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; a<br>• pherfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu'r Cyngor.<br>A7 Sefydlu rhaglen dreigl o adolygiadau archwilio mewnol i brofi systemau a chynnal adolygiadau o gydymffurfiaeth o ran arferion diogelu'r Cyngor.<br>A8 Sicrhau y caiff y risgiau sy'n gysylltiedig â diogelu plant eu hystyried ar lefel gorfforaethol a lefel gwasanaeth wrth ddatblygu cynlluniau rheoli risg a chytuno arnynt ym mhob rhan o'r Cyngor. |
| Hydref 2015 | Helpu Pobl Hŷn i Fyw'n Annibynnol: A yw Cynghorau'n Gwneud Digon? | A1 Gwella trefniadau llywodraethu, atebolrwydd ac arweinyddiaeth gorfforaethol mewn perthynas â materion pobl hŷn drwy wneud y canlynol:<br>• penodi uwch swyddog arweiniol sy'n gyfrifol am gydgysylltu ac arwain gwaith y Cyngor ar wasanaethau pobl hŷn.<br>• ailalinio gwaith cydgysylltwyr y strategaeth pobl hŷn er mwyn helpu i ddatblygu a chyflawni cynlluniau ar gyfer gwasanaethau sy'n cyfrannu at annibyniaeth pobl hŷn;<br>• penodi aelod yn hyrwyddwr gwasanaethau pobl hŷn; a<br>• lledaenu gwybodaeth am y penodiadau hyn i bob aelod o staff a rhanddeiliad a'i diweddaru yn rheolaidd.<br>A2 Gwella prosesau cynllunio strategol a chydgysylltu gweithgarwch yn well ar gyfer gwasanaethau i bobl hŷn drwy wneud y canlynol:<br>• sicrhau bod cynlluniau gweithredu cynhwysfawr ar waith sy'n cwmpasu gwaith holl adrannau perthnasol y Cyngor a gwaith rhanddeiliaid allanol y tu allan i faes iechyd a gofal cymdeithasol; a<br>• gweithio gyda thrigolion a phartneriaid i ddatblygu cynlluniau ac wrth ddatblygu blaenoriaethau a chytuno arnynt.<br>A3 Ymgysylltu'n well a phobl hŷn a gwella'r ffordd y caiff gwybodaeth ei lledaenu iddynt drwy sicrhau bod gwasanaethau cyngor a gwybodaeth wedi'u cyflunio'n briodol a'u bod yn diwallu anghenion y rhai sy'n eu cael. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Hydref 2015 | Helpu Pobl Hŷn i Fyw'n Annibynnol: A yw Cynghorau'n Gwneud Digon? | A4 Sicrhau y caiff perfformiad yr ystod o wasanaethau sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol eu rheoli'n effeithiol drwy wneud y canlynol:<br>• pennu mesurau priodol i alluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i lunio barn ar gynnydd wrth gyflawni camau gweithredu ar gyfer holl wasanaethau'r Cyngor;<br>• sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn ymdrin â gwaith yr holl asiantaethau perthnasol ac yn enwedig y rhai y tu allan i faes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol; a<br>• nodi mesurau i farnu mewnbynnau, allbynnau ac effaith fel y gellir deall effaith toriadau cyllidebol a chefnogi gweithgarwch goruchwylio a chraffu.<br>A5 Sicrhau cydymffurfiaeth â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb drwy wneud y canlynol:<br>• nodi sut y bydd newidiadau i wasanaethau neu doriadau mewn cyllidebau yn effeithio ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig;<br>• mesur yr effaith bosibl a'r camau lliniaru a gymerir er mwyn lleihau'r effaith negyddol bosibl ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig;<br>• nodi nifer y bobl y gallai'r newidiadau arfaethedig neu'r polisi newydd effeithio arnynt drwy nodi'r effaith ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig; a<br>• sicrhau bod gweithgarwch ategol megis arolygon, grwpiau ffocws ac ymgyrchoedd gwybodaeth yn cynnwys digon o wybodaeth i alluogi defnyddwyr gwasanaethau i ddeall yr effaith a gaiff newidiadau arfaethedig arnynt yn glir.<br>A6 Gwella'r ffordd y rheolir y Gronfa Gofal Canolraddol a sicrhau ei bod yn cael mwy o effaith drwy wneud y canlynol:<br>• pennu llinell sylfaen ar gyfer perfformiad ar ddechrau prosiectau fel y gellir barnu effaith y rhain dros amser;<br>• cytuno ar fformat a chwmpas adroddiadau monitro fel y gellir gwerthuso prosiectau a ariennir ar sail gyfatebol yn erbyn meini prawf y gronfa, er mwyn barnu pa rai sy'n cael yr effaith gadarnhaol fwyaf a faint o gynlluniau sydd wedi'u prif ffrydio i gyllid craidd; ac<br>• ymgysylltu'n well â phob partner er mwyn sicrhau y caiff cymaint o bartneriaid â phosibl eu hannog i gymryd rhan mewn mentrau a rhaglenni yn y dyfodol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Rhagfyr 2015 | Cyflawni â llai – Gwasanaethau Hamdden | A1 Gwella gwaith cynllunio strategol ym maes gwasanaethau hamdden drwy wneud y canlynol:<br>• pennu gweledigaeth gytûn y Cyngor ar gyfer gwasanaethau hamdden;<br>• cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau hamdden;<br>• canolbwyntio ar sefyllfa'r Cyngor o fewn darpariaeth chwaraeon a hamdden y gymuned ehangach yn yr ardal; ac<br>• ystyried y potensial ar gyfer darparu gwasanaethau ar sail ranbarthol.<br>A2 Cynnal arfarniad o opsiynau er mwyn nodi'r model cyflawni mwyaf priodol yn seiliedig ar weledigaeth gytûn a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer gwasanaethau hamdden sy'n ystyried y canlynol:<br>• argaeledd cyllid cyfalaf a chyllid refeniw yn ystod y tair i bum mlynedd nesaf;<br>• opsiynau i wella ffocws masnachol gwasanaethau hamdden;<br>• cyfleoedd i wella prosesau cynhyrchu incwm a lleihau 'cymhorthdal' y Cyngor;<br>• dadansoddi cost a budd o'r holl opsiynau sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau hamdden yn y dyfodol;<br>• cyfraniad gwasanaethau hamdden at rôl ehangach y Cyngor o ran iechyd y cyhoedd;<br>• ymgysylltu'n well â'r cyhoedd er mwyn sicrhau y caiff barn ac anghenion defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr eu nodi'n glir;<br>• effaith opsiynau gwahanol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig o dan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus; a<br>• chynaliadwyedd y gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol.<br>A3 Sicrhau y caiff perfformiad gwasanaethau hamdden eu rheoli'n effeithiol drwy nodi cyfres o fesurau i alluogi swyddogion, aelodau a dinasyddion i farnu mewnbynnau, allbynnau ac effaith. Dylai hyn gwmpasu perfformiad ym mhob rhan o'r Cyngor a pherfformiad cyfleuster-benodol a chynnwys y canlynol:<br>• gwariant cyfalaf a refeniw;<br>• incwm;<br>• 'cymhorthdal' y Cyngor;<br>• ansawdd cyfleusterau a'r gwasanaeth a ddarperir;<br>• boddhad cwsmeriaid;<br>• llwyddiant mentrau 'masnachol newydd';<br>• data defnydd – nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau/ cyfleusterau, pryd y cawsant eu defnyddio, ac ati; ac<br>• effaith hamdden o ran mynd i'r afael â blaenoriaethau ym maes iechyd y cyhoedd. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Rhagfyr 2015 | Cyflawni â llai – Gwasanaethau Hamdden | A4 Gwella trefniadau llywodraethu, atebolrwydd ac arweinyddiaeth gorfforaethol mewn perthynas â gwasanaethau hamdden drwy wneud y canlynol:<br>• cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar berfformiad i'r pwyllgor(au) craffu;<br>• rhoi gwybodaeth gynhwysfawr i aelodau etholedig er mwyn helpu i sicrhau y gwneir penderfyniadau cadarn;<br>• meincnodi a chymharu perfformiad ag eraill; a<br>• defnyddio canfyddiadau adolygiadau archwilio/arolygu mewnol ac allanol i nodi cyfleoedd i wella gwasanaethau. |

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru